# Adolygiad o Siarter y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud dros Blant a Phobl Ifanc

Crynodeb plant a phobl ifanc (Mawrth 2026)

Llywodraeth Cymru Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Hawliau Plant Cymru Children's Rights Wales

## Beth oedd yr ymchwil yn ymwneud ag ef?

Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (NPS) yn helpu sefydliadau, fel cynghorau a gwasanaethau eraill, i weithio'n dda gyda phlant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfyniadau. Mae'r Siarter a'r Nod Barcud yn ddyfarniadau i sefydliadau sy'n dangos eu bod yn defnyddio'r Safonau.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i gwmni ymchwil o'r enw Ecorys i ddarganfod pa mor dda y mae'r Siarter a'r Nod Barcud wedi bod yn gweithio, a pha welliannau y gellid eu gwneud.

## Pwy gymerodd ran?

Siaradodd yr ymchwilwyr â sefydliadau sy'n gweithio i ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc ar draws Cymru. Gwnaethon nhw hefyd siarad â phobl sy'n gweithio mewn **cynghorau lleol** a sefydliadau cyhoeddus eraill fel iechyd a'r heddlu. Fe wnaethon nhw hefyd edrych ar enghreifftiau o'r hyn sydd wedi'i wneud mewn **gwledydd eraill**.

## Beth oedd y canfyddiadau?



### Cryfderau

- Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn **adnabyddus ac fe'u hoffir**, yn enwedig mewn Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Plant.
- Mae'r Nod Barcud a'r Siarter wedi helpu sefydliadau i **gymryd cyfranogiad o ddifri, ac i rannu pan fyddan nhw'n gwneud rhywbeth yn dda**.
- Yn yr enghreifftiau gorau, fe wnaethant helpu sefydliadau i wella sut maen nhw'n **cynllunio a chefnogi cyfranogiad**, ac i wrando ar yr hyn y mae pobl ifanc ei eisiau a'i angen.



### Meysydd i'w gwella

- **Nid yw'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi defnyddio'r Siarter a'r Nod Barcud.** Mae rhai wedi defnyddio cynlluniau cyfranogiad eraill sy'n gweithio'n dda iddyn nhw; mae eraill wedi gwneud llai.
- Mae wedi bod yn **anodd cael gweithwyr proffesiynol y tu allan i Wasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Plant i gymryd rhan yn y cynllun**.
- Nid yw **canlyniadau cyfranogiad bob amser yn cael eu casglu a'u rhannu**. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach dangos pa mor ddefnyddiol yw'r Siarter a'r Nod Barcud ac i wirio pa mor dda mae sefydliadau'n gwneud.



## Beth awgrymodd yr ymchwilwyr?

At ei gilydd, canfu'r ymchwilwyr fod y Siarter a'r Nod Barcud wedi helpu rhai sefydliadau i ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Pe byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno parhau â'r Siarter a'r Nod Barcud, awgrymodd yr ymchwilwyr sut y gellid gwella'r cynllun. Gallai hyn gynnwys defnyddio **Dyfarniadau Aur, Arian ac Efydd** i ddangos pa mor dda y mae sefydliadau'n gwneud. Gallai fod **seremoni wobrwyo flynyddol** hefyd i ddathlu llwyddiannau a rhannu syniadau da.




Dywedodd yr ymchwilwyr y dylai plant a phobl ifanc helpu i ddiweddaru'r Siarter a'r Nod Barcud os caiff ei ail-lansio. Dywedon nhw hefyd y dylai **grwpiau plant a phobl ifanc lleol** helpu i wirio cynnydd yn eu hardal. Gallai'r grwpiau hyn weithio gydag Arolygwyr Ieuenctid cenedlaethol i wneud yn siŵr bod sefydliadau yn gwneud yr hyn y dywedon nhw y bydden nhw'n ei wneud.

Am ragor o wybodaeth: www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil